**HYSBYSIAD O GYNIGION**

**GORCHYMYN (AMRYW FFYRDD)**

**(TERFYNAU CYFLYMDER 30MYA) CYNGOR SIR DDINBYCH 2023**

**HYSBYSIR DRWY HYN** bod Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 82, 83 ac 84 a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig gwneud y Gorchymyn a enwir uchod, a fydd â'r effaith a ganlyn:

a) Cyflwyno terfynau cyflymder 30mya ar amryw ffyrdd yn Sir Ddinbych fel y manylir yn eu cylch yn y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn, a fydd yn effeithio ar ardaloedd Prestatyn, Llanelwy, Rhuthun, Llanfwrog a'r Rhyl.
b) Diddymu gorchmynion presennol sy'n pennu terfynau cyflymder os ydynt yn gorgyffwrdd ag unrhyw agwedd ar y cynigion yn y Gorchymyn hwn fel y manylir yn eu cylch yn y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn.

Nodir manylion llawn y cynigion yn y Gorchymyn drafft ynghyd â'r cynlluniau a datganiad o'r rhesymau dros gynnig gwneud y Gorchymyn, a gellir eu gweld yn ystod oriau agor arferol yn y llyfrgelloedd cyhoeddus canlynol: Prestatyn, Llanelwy, Rhuthun, Corwen a'r Rhyl.
Gellir gweld y manylion hefyd ar wefan y Cyngor (countyconversation.denbighshire.gov.uk).

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cynigion hyn at Adain Traffig Ffyrdd y Cyngor.

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur ynglŷn â'r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych dan Borth Sgwrs y Sir (countyconversation.denbighshire.gov.uk) neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig yn gwrthwynebu, yn nodi'r seiliau i'r gwrthwynebiad, at Cyfarwyddwr Corfforaethu Llywodraethu a Busnes, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn 3 Awst 2023 fan bellaf. Dylid nodi y gallai unrhyw sylwadau y mae'r cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

Dyddiedig 12 Gorffennaf 2023

Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes a Swyddog Monitro. Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych.